Pryfed Peillio *Cymru*
Pollinators *in Wales*

# Rheoli ymylon ffyrdd er lles bywyd gwyllt

Llywodraeth Cymru
Welsh Government







## Mae ymylon ffyrdd yn hollbwysig i bryfed peillio!

- Mae rhyw 10,000 ha o ymylon ffyrdd yng Nghymru
- Maen nhw'n gynefin pwysig i blanhigion, mamaliaid bach a phryfed peillio
- Maen nhw'n goridorau i fywyd gwyllt
- Mae blodau gwyllt traddodiadol ar ymylon ffyrdd yn creu ymdeimlad o le

## Mae arferion da yn arbed arian

- **Cyngor Sir Mynwy** – wedi arbed £30,000 y flwyddyn trwy blannu blodau gwyllt yn lle tyfu, plannu a chynnal y blodau gwely unflwydd arferol

## Mae gwaith rheoli sensitif yn helpu natur ac yn cadw'r ffyrdd yn ddiogel

- Dylid eu torri 2–3 gwaith y flwyddyn; unwaith yn gynnar, unwaith yn hwyr
- Gadewch i rai darnau dyfu'n dalach a'u torri unwaith y flwyddyn yn unig
- Gadewch i flodau gwyllt flodeuo a hadu
- Peidiwch â gadael i'r borfa rydych wedi'i thorri fygu'r blodau
- Ewch â thorion o'r safle
- Heuwch flodau brodorol ar gylchfannau a mannau tebyg

## Gwneud i arfer da droi'n arfer pob dydd

- **Blaenau Gwent** – mae hadau blodau sy'n denu pryfed peillio wedi'u hau ar 11 cylchfan ac ar ymylon ffyrdd, mae perth 1km o hyd wedi'i phlygu a pherth newydd 60m o hyd wedi'i phlannu
- **Pen-y-bont ar Ogwr** – mae hadau blodau gwyllt wedi'u plannu ar gylchfannau ar ffiniau'r dre
- **Sir Ddinbych** – mae naw Gwarchodfa Natur Ymylon Ffyrdd yn cael eu creu
- **Sir Fynwy** – yn torri ymylon y ffyrdd ar rai safleoedd ddwywaith y flwyddyn yn lle saith

**Delweddau**
Prif lun: @buglife - *Pollination and the invertebrate fauna of roadside verges* gan Claire Dinham
Chwith: Fel yr uchod
Canol: Fel yr uchod
Dde: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

OGL
WG25745